wPecyn Dogfen Cyhoeddus

| | | | |
|---|---|---|---|
| At: | Aelodau'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd | Dyddiad: | Dydd Iau, 7 Chwefror 2013 |
| | | Rhif Union: | 01824 712589 |
| | | ebost: | dcc_admin@denbighshire.gov.uk |

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD, DYDD GWENER, 15 CHWEFROR 2013** am **10.00 am** yn **YSTAFELL BWLLGOR 1A, NEUADD Y SIR, RHUTHUN**.

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd

**AGENDA**

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 DATGAN BUDDIANNAU**

Aelodau i ddatgan unrhyw fuddiannau personol neu ragfarnus mewn unrhyw fusnes i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

**3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys dan Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

**4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF**

Derbyn a chymeradwyo cofnodion y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a gynhaliwyd ar 13eg Rhagfyr, 2012 (copi ynghlwm).

**5 CYMHARU ADNODDAU AR GYFER CRAFFU YNG NGOGLEDD CYMRU**

Ystyried adroddiad gan y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd (copi ynghlwm) mewn perthynas â'r adnoddau sydd ar gael i bob awdurdod ac enghreifftiau o sut cânt eu defnyddio.

**6 CANLYNIADAU AROLWG AMSERIAD CYFARFODYDD**

Ystyried adroddiad gan y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd (copi ynghlwm) yn asesu canlyniadau'r arolwg.

**7 DIWEDDARIAD AR GANLLAWIAU STATUDOL TERFYNOL:**

**(a) CYD-BWYLLGORAU CRAFFU**
**(b) ADRODDIADAU BLYNYDDOL GAN AELODAU**

Ystyried adroddiad llafar gan y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd ar ddiweddariad ar faterion Cyd-graffu a phrosesau ar gyfer cefnogi Adroddiadau Blynyddol.

**8 BLAENRAGLEN WAITH**

Ystyried eitemau i'r dyfodol.

**MEMBERSHIP**

**Y Cynghorwyr**

William Cowie
Stuart Davies
Martyn Holland
Gwyneth Kensler
Barry Mellor
Win Mullen-James
Bob Murray
Peter Owen
Merfyn Parry
Arwel Roberts
Gareth Sandilands

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

Prif Weithredwr / Chief Executive Mohammed Mehmet PhD BSc
Prif Swyddfeydd Y Cyngor/Council Offices, Rhuthun/Ruthin, Sir Ddinbych/Denbighshire LL15 1YN.
Ffôn/Tel (01824) 706234 Ffacs/Fax (01824) 707446

# PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a gynhaliwyd yn Ystafell Gynhadledd 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Iau, 13 Rhagfyr 2012 am 10.00 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr William Cowie, Stuart Davies, Martyn Holland, Gwyneth Kensler a/ac Arwel Roberts.
Roedd Y Cynghorydd Colin Hughes yn bresennol fel Sylwedydd.

## HEFYD YN BRESENNOL

Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd a Swyddog Monitro (RGW), Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd (SP) a Swyddog Gweinyddol (CW).

## 1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwr(wyr) Barry Mellor, Win Mullen-James, Bob Murray, Peter Owen a/ac Gareth Sandilands

## 2 PENODI IS-GADEIRYDD

**PENDERFYNWYD –** penodi'r Cynghorydd S.A. Davies yn Is-gadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd am y flwyddyn i ddod.

## 3 DATGANIADAU O FUDDIANT

Ni chafwyd datganiadau o fuddiant personol na niweidiol mewn unrhyw fusnes a oedd wedi ei nodi i'w ystyried yn y cyfarfod.

## 4 MATERION BRYS YN ÔL CYTUNDEB Y CADEIRYDD

Ni chodwyd unrhyw faterion y dylid eu hystyried, ym marn y Cadeirydd, fel mater o frys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972.

## 5 DYNODIAD PENNAETH Y GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

Roedd copi o adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd wedi ei gylchredeg efo'r papurau ar gyfer y cyfarfod.

Esboniodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd (PGCaD) bod Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn cyfarwyddo'r Awdurdod Lleol i gael Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd (PGD). Cylch gwaith y PGD fyddai adolygu digonolrwydd yr adnoddau i gefnogi'r swyddogaeth ddemocratig, gyda phwyslais arbennig ar y broses graffu. Roedd yn ofynnol hefyd yn ôl y Mesur i'r PGD ddynodi

un o swyddogion y Cyngor i ymgymryd ag ystod o wasanaethau democrataidd. Byddai'r swyddog dynodedig yn cael ei alw'n Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd.

Roedd y Cyngor Sir wedi penderfynu y byddai aelodaeth y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd (PGD) newydd yn cynnwys un ar ddeg o Gynghorwyr, gyda chydbwysedd gwleidyddol, na fyddai'n cynnwys Aelod Cabinet. Byddai dynodiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn swydd statudol, wleidyddol gyfyngedig a'i rôl fyddai ymgymryd â'r swyddogaethau a fynegir yn adran 9 y Mesur ac roedd manylion y swyddogaethau wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

Roedd Adran 8 (4) y Mesur yn datgan na châi'r Cyngor ddynodi unrhyw un o'r canlynol fel Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd:-

- Pennaeth Gwasanaeth Cyflogedig
- Swyddog Monitro
- Prif Swyddog Cyllid

Roedd paragraff 3.18 y Canllawiau Statudol ar gyfer Mesur 2011 yn datgan 'mewn llawer o achosion, fe fydd yna berson amlwg sydd eisoes yn cyflawni rhan helaeth o swyddogaeth y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd. Byddid yn disgwyl i Bennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig argymell pwy fyddai'n ymgeisydd addas i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.'

Roedd llawer o Awdurdodau Lleol wedi dynodi'r swyddog a oedd yn uniongyrchol gyfrifol am reoli gwasanaethau democrataidd/pwyllgor. Byddai hyn yn osgoi dyblygu a gwrthdaro potensial rhwng darpariaeth y gwasanaeth a swyddogaethau statudol sydd yr un yn eu hanfod. Yn ogystal byddid yn osgoi unrhyw risg o ddyblygu swyddogaethau, cyngor a llinellau rheolaeth y gwasanaeth. Er na allai'r Swyddog Monitro fod yn Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd nid oedd yna unrhyw gyfyngiad ar i'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd adrodd yn uniongyrchol i'r Swyddog Monitro.

Hysbyswyd y Pwyllgor fod ymgynghoriadau wedi eu cynnal yn unol â'r Canllawiau Statudol ar gyfer Mesur 2011. Roedd Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig ac Aelodau eraill CET wedi eu hymgynghori. Roedd CET wedi argymell dynodi Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd yn Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd.

Rhoddodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd amlinelliad byr o swyddogaeth a chylch gwaith y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ac, yn dilyn trafodaeth fer:-

***PENDERFYNWYD –*** *bod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn cytuno i ddynodi Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd y Cyngor yn 'Bennaeth Gwasanaethau Democrataidd' y Cyngor i ddibenion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.*

## 6 YMGYNGHORIAD AR GYDBWYLLGORAU CRAFFU AC ADRODDIADAU BLYNYDDOL GAN AELODAU

Roedd copïau o adroddiad gan Reolwr y Gwasanaethau Democrataidd wedi eu cylchredeg efo'r papurau ar gyfer y cyfarfod.

Craffu ar y Cyd

Esboniodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd fod Adran 58 Mesur Llywodraeth Leol 2011 yn grymuso Gweinidogion Cymreig i wneud rheoliadau i ganiatáu i ddau neu fwy o Awdurdodau Lleol benodi Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu ac i roi canllawiau statudol y bydd yn rhaid i'r Cydbwyllgorau Trosolwg a Chraffu eu hystyried wrth ymarfer eu swyddogaethau. Roedd Adran 5 hefyd yn grymuso'r Gweinidogion Cymreig i roi canllawiau statudol y bydd yn rhaid i'r Awdurdodau Lleol eu hystyried wrth wneud trefniadau ar gyfer cynhyrchu adroddiadau blynyddol dan Adran 5.

Roedd Llywodraeth Cymru'n cynnal ymarferiad ymgynghori'n gyfredol i gael barn ar y Cydbwyllgorau Craffu, Atodiad 1, a chynhyrchiad Adroddiadau Blynyddol gan Aelodau, Atodiad 2. Gellid trosglwyddo unrhyw farn a fynegir gan y Pwyllgor i Lywodraeth Cymru. Cadarnhawyd y byddid yn cyflwyno adroddiad tebyg i Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu ar Ragfyr 13eg, 2012 er mwyn sylwadau ar y trefniadau Craffu ar y cyd.

Rhoddodd y Mesur rym i ddau neu fwy o Awdurdodau Lleol ffurfio Cydbwyllgorau Craffu i gryfhau trefniadau craffu drwy hyrwyddo cydweithredu a rhannu arbenigedd craffu. Byddai Cydbwyllgorau'n ei gwneud yn haws craffu gwasanaethau neu faterion a oedd yn torri ar draws ffiniau daearyddol. Roedd y Canllawiau drafft yn rhoi enghreifftiau o achosion lle gallai Cyd-bwyllgor fod yn briodol ac roedd y rhain wedi eu hamlinellu yn yr adroddiad.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd M.L. Holland, rhoddodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd amlinelliad o'r Mesur a oedd yn datgan y gall Awdurdodau Lleol benodi Cydbwyllgorau Craffu Trosolwg ond ni fyddai yna unrhyw rwymedigaeth i wneud hynny. Cyfeiriodd at ddarpariaeth gwasanaethau rhanbarthol ac isranbarthol, a allai elwa o drefniadau craffu ar y cyd, ac at fater personau dynodedig. Esboniwyd y byddai yna Orchymyn a fyddai'n nodi cyrff cyhoeddus eraill a allai fod yn destun craffu ar y cyd. Ni allai Cyd-bwyllgor Craffu ddelio â materion y gellid eu hystyried gan y 'Pwyllgor Trosedd ac Anhrefn', (Pwyllgor Craffu Partneriaethau yn Sir Ddinbych), dan Ddeddf Heddlu a Chyfiawnder 2006. Roedd y rhain yn cynnwys gwaith y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol a gwahanol faterion trosedd ac anhrefn lleol.

Mynegwyd pryderon gan y Cynghorydd W.L. Cowie ynglŷn ag adnoddau staffio, y posibilrwydd o ddyblygu gwaith a'r cynnydd mewn costau o ganlyniad. Cyfeiriodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd at y gefnogaeth ddeddfwriaethol a darpariaeth y pwerau priodol i sicrhau effeithiolrwydd y broses graffu ar y cyd. Esboniodd y Cynghorydd G.M. Kensler bod lefel y gefnogaeth graffu a ddarperir gan rai awdurdodau lleol eraill yng Ngogledd Cymru'n fwy na'r gefnogaeth yn Sir Ddinbych, gan gyfeirio'n arbennig at lefelau staffio. Cyfeiriodd at

sylwadau diweddar gan y Prif Weithredwr ynglŷn â'r angen i gymedroli costau drwy leihau nifer y cyfarfodydd a gynhelir, ac mewn ymateb i awgrym y dylid cyflwyno fideo-gynadledda i isafu costau teithio. Esboniodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd nad oedd y cyfleuster yma ar gael ar hyn o bryd ar gyfer cyfarfodydd fel Cyd-bwyllgorau Craffu ond gellid ei ddefnyddio ar gyfer Gweithgorau neu Is-bwyllgorau. Esboniodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd bod Gwasanaeth Gwella Effeithiolrwydd Ysgolion Rhanbarthol Gogledd Cymru'n cael ei redeg gan Gyd-bwyllgor, a theimlai'r Cynghorydd Kensler y dylai'r Pwyllgor Addysg Rhanbarthol fod yn destun craffu gan Sir Ddinbych a chraffu ar y cyd, o bosib. Esboniodd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd y byddai ffurfiant Pwyllgor felly'n amodol ar ystyriaeth gan y Pwyllgorau Craffu unigol.

Mynegodd y Cynghorydd M.L. Holland bryder ynglŷn â chyfarwyddebau a roddwyd gan Lywodraeth Cymru ynglŷn â chydweithio. Amlygodd yr angen i archwilio rheolaeth Pwyllgorau mewnol cyn eu craffu gan gyrff a sefydliadau allanol. Fodd bynnag, teimlai'r Cynghorydd Holland y byddai cyd-graffu materion traws-ffiniol yn fuddiol ac fe allai fod yn effeithiol. Cyfeiriodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd at y Rheoliadau Drafft a oedd yn amlygu'r angen am gytundeb rhwng yr holl fuddgyfranogwyr, yn enwedig o ran y Telerau Gorchwyl, cyn creu Cyd-bwyllgorau.

Esboniwyd, oherwydd y cymhlethdod ychwanegol wrth sefydlu a rhedeg Cyd-bwyllgor Craffu, bod y Canllawiau'n argymell cwmpasu amlinellol i helpu i bennu a ddylid sefydlu Cyd-bwyllgor ai peidio, ac i bennu a oedd angen pwyllgor ad-hoc neu bwyllgor sefydlog. Roedd dull rheoli prosiect wedi ei argymell yn gryf i sicrhau cyfarfod ag amcanion.

Byddai oblygiadau adnoddau potensial o sefydlu a chefnogi Cyd-bwyllgorau Craffu'n golygu gwaith ychwanegol i swyddogion cynorthwyol, ac fe'i hystyrid yn rhan o broses asesu'r Cyngor. Gellid rheoli hyn gan fwyaf drwy gymorth ar gyfer adroddiadau blynyddol sy'n seiliedig ar y broses ond byddai effaith Cyd-bwyllgorau Craffu'n dibynnu ar raddfa a chwmpas y gweithgareddau. Byddai cefnogi'r broses o adroddiadau blynyddol a chymeradwyo'r cynnwys i'w gyhoeddi'n golygu amser ychwanegol y swyddog, yn enwedig yn y flwyddyn gyntaf. Dylid cynnwys y costau o fewn adnoddau presennol a'i adolygu wrth i'r broses ddatblygu. Fodd bynnag, byddai gofynion ychwanegol a allai fod yn ganlyniad i'r gweithgareddau hyn, yn golygu bod llai o adnoddau ar gael mewn mannau eraill, yn enwedig o ran y darpariaethau craffu.

<u>Adroddiadau Blynyddol</u>

Esboniodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd ei bod yn ofynnol yn ôl y Mesur i bob Awdurdod Lleol gael trefniadau i bob Aelod wneud adroddiad blynyddol ar eu gweithgareddau yn eu rôl fel Cynghorydd, ac i gael cyfle cyfartal i gyhoeddi pob un o'r adroddiadau hynny. Byddid yn addasu gwefan Sir Ddinbych i gynnwys gwybodaeth am yr adroddiadau blynyddol ac ym mhle y gellid eu cyrchu.

Roedd y Canllawiau Statudol drafft yn caniatáu i Awdurdodau Lleol roi cyfyngiadau ar gynnwys yr adroddiadau a ddylai fod yn ffeithiol ac yn debygol o fod yn troi o gwmpas cyfarfodydd, digwyddiadau, cynadleddau, hyfforddiant a datblygu. Dylai

cynhyrchu templed i'w ddefnyddio i gwblhau adroddiadau blynyddol gynorthwyo Aelodau i gwblhau eu hadroddiad â'r wybodaeth briodol. Yn seiliedig ar y Canllawiau mae'r meysydd y gellid eu defnyddio fel prif benawdau templed wedi eu hymgorffori yn yr adroddiad, a gallai'r templed gynnwys gwybodaeth safonol ar flaenoriaethau corfforaethol y Cyngor ar gyfer adroddiad pob Aelod. Gan fod yna gyfyngiadau arbennig ynglŷn â'r hyn y gellid ei gynnwys mewn Adroddiad Blynyddol byddai angen adolygiad neu gyfnod golygu cyn cyhoeddi. Byddai hyn yn sicrhau bod y cynnwys yn cydymffurfio â Chanllawiau Statudol ac unrhyw gyfyngiadau a roddir gan y Cyngor.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd W.L. Cowie ynglŷn â'r gofyniad i Gynghorydd gynhyrchu Adroddiad Blynyddol, rhoddodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd fanylion geiriad y Mesur fel y'i hamlinellir yn 4.5 yr adroddiad. Mynegodd Aelodau'r Pwyllgor eu cefnogaeth i ddarpariaeth yr Adroddiadau Blynyddol. Yn ateb i gwestiwn gan y Cynghorydd G.M. Kensler ynglŷn â darpariaeth Adnoddau staffio, cyfeiriodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd at Ddatganiad y Prif Swyddog Cyllid a oedd yn dynodi y byddai prosesu a chymeradwyo cynnwys i'w gyhoeddi'n golygu amser ychwanegol swyddog yn ystod y flwyddyn gyntaf.

Esboniodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd y byddai angen ymateb yr ymgynghoriad erbyn Rhagfyr 21ain 2012. Cadarnhaodd fod gan yr Aelod Arweiniol yr awdurdod dirprwyedig i gyflwyno ymateb a gellid ymgorffori barn a phryderon a fynegwyd gan y Pwyllgor yn yr ymateb. Yn dilyn trafodaeth bellach:-

***PENDERFYNWYD –*** *yn amodol ar yr uchod, bod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd:-*

*(a) Yn nodi'r Canllawiau Statudol ar gyfer Cydbwyllgorau Trosolwg a Chraffu,*
*(b) Yn nodi'r Canllawiau Statudol drafft ar gyfer Adroddiadau Blynyddol gan Aelodau Awdurdod Lleol;*
*(c) Y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd i baratoi templed gyda meysydd priodol (e.e. presenoldeb mewn cyfarfodydd) sydd wedi eu poblogi ymlaen llaw ar gyfer eu defnyddio gan Aelodau wrth gwblhau eu Hadroddiadau Blynyddol.*

**7 BLAENRAGLEN WAITH**

Mae copi o adroddiad gan y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd, a oedd yn amlinellu rôl y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ac yn gofyn am ystyriaeth materion yn y dyfodol i'w hystyried gan y Pwyllgor, wedi ei ddosbarthu efo'r papurau ar gyfer y cyfarfod.

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yr adroddiad ac esboniodd, gan mai dyma gyfarfod cyntaf y Pwyllgor, y'i hystyrid yn briodol trafod ei gylch gwaith a datblygu blaenraglen waith.

Cyfeiriodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd at ddyluniad a chynhyrchiad templed i gynorthwyo Aelodau wrth gwblhau eu hadroddiadau blynyddol a gellid cyflwyno'r templed unwaith y byddai wedi ei gwblhau, i'r Pwyllgor ar gyfer sylwadau

ac awgrymiadau. Cytunwyd hefyd, yn dilyn y cyfnod ymgynghori, bod manylion sy'n ymwneud â'r canllawiau terfynol ar gyfer craffu ar y cyd ac adroddiadau blynyddol yn cael eu hadrodd i'r Pwyllgor.

Esboniodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd fod arolwg wedi ei gynnal yn ystod tymor pob Cyngor i geisio barn a gofynion Aelodau Etholedig o ran amserlen a hyblygrwydd cyfarfodydd y cyngor o ran amlder, amseriad a lleoliad. Cadarnhaodd fod tua hanner yr Aelodau wedi ymateb i'r arolwg ac awgrymodd bod y Pwyllgor yn ystyried yr ymateb pan y'i derbynnir ac yna roi argymhellion i'r Cyngor llawn. Cytunodd y Pwyllgor i Arweinwyr Grwpiau gael eu darparu â manylion yr Aelodau nad oedd wedi ymateb hyd yma.

Yn ateb i gwestiynau gan y Cynghorydd M.L. Holland, rhoddodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd fanylion Telerau Gorchwyl y Pwyllgor a oedd yn cynnwys adolygu digonolrwydd a darpariaeth staff, llety ac adnoddau eraill gan yr Awdurdod i gyflawni swyddogaethau gwasanaethau democrataidd, yn enwedig cymorth craffu, gweinyddiad pwyllgorau a gwasanaethau aelodau. Ni wnâi'r Pwyllgor benderfyniadau terfynol o ran y materion hyn ond gallai drafod â'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, y Prif Swyddog Cyllid ac Aelodau Arweiniol priodol a chyflwyno adroddiadau ffurfiol ar y materion hyn i'r Cyngor llawn.

Esboniodd y Cynghorydd C. Hughes, er bod cymorth craffu yn Sir Ddinbych wedi bod yn dda iawn, roedd lefel cymorth a darpariaeth adnoddau wedi bod gryn lawer yn is na'r hyn a ddarperir gan Awdurdodau Lleol eraill. Cytunai Aelodau bod adroddiad i'w gyflwyno i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn nodi'r adnoddau a'r cymorth a ddarperir ar gyfer craffu yn Sir Ddinbych, ynghyd â chymariaethau ag Awdurdodau Lleol eraill yng Ngogledd Cymru.

Yn ateb i bryderon a fynegwyd gan y Cynghorydd A. Roberts ac M.L. Holland, rhoddodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd fanylion y rheolau sy'n ymwneud â gofynion presenoldeb Aelodau, a oedd yn datgan na ellid diarddel Cynghorydd am ddiffyg presenoldeb os oedden nhw wedi mynychu un cyfarfod yn ystod cyfnod o chwe mis. Cadarnhaodd fod yna broblemau'n ymwneud â chreu diwylliant ynghylch presenoldeb Aelodau yng nghyfarfodydd y Cyngor a allai olygu ymyriad Grŵp ynglŷn ag Aelodau ar Bwyllgorau.

Yn dilyn trafodaeth fer:-

***PENDERFYNWYD –***

*(a) Cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn nodi'r adnoddau a'r cymorth a ddarperir ar gyfer craffu yn Sir Ddinbych, ynghyd â chymariaethau gydag Awdurdodau Lleol eraill yng Ngogledd Cymru;*

*(b) Yn dilyn y cyfnod ymgynghori, bod adroddiad yn nodi'r canllawiau terfynol ar gyfer caffael ar y cyd ac adroddiadau blynyddol yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor;*

*(c) Bod copi o'r templed, o'i gwblhau, yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor ar gyfer sylwadau ac awgrymiadau;*

(d) *Cyflwyno adroddiad yn nodi gofynion Aelodau o ran amserlen a hyblygrwydd cyfarfodydd y cyngor o ran amlder, amseru a lleoliad, i'r Pwyllgor cyn rhoi argymhelliad i'r Cyngor llawn o ran y materion hyn;*

(e) *Arweinwyr Grŵp i'w darparu â manylion yr Aelodau nad oedd eto wedi darparu ymateb i'r arolwg diweddar.*

Daeth y cyfarfod i ben am 11.10 a.m.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

| | |
|---|---|
| **Adroddiad I:** | **Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **15 Chwefror 2013** |
| **Prif Aelod / Swyddog:** | **Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Rheolwr Gwasanaeth Democrataidd** |
| **Teitl:** | **Cymharu Adnoddau ar gyfer Craffu** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn rhoi trosolwg byr o'r adnoddau y mae'r chwe awdurdod lleol yng ngogledd Cymru yn ei ddarparu i gefnogi swyddogaethau eu pwyllgor craffu.

## 2. Beth yw'r rheswm dros wneud yr adroddiad?

Yn y cyfarfod diwethaf fe ofynnodd yr aelodau am adroddiad yn cymharu adnoddau ar gyfer pwyllgorau craffu ar draws gogledd Cymru. Mae cylch gwaith y pwyllgor yn cynnwys gwneud awgrymiadau ar yr adnoddau sydd ei angen er mwyn cefnogi craffu.

## 3. Beth yw'r Awgrymiadau?

Fod y Pwyllgor Gwasanaeth Democrataidd yn ystyried y wybodaeth a'r sylwadau yn unol â hynny.

## 4. Manylion yr Adroddiad.

4.1 Nid yw Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 yn pennu sut y dylai awdurdod lleol drefnu eu trefniadau craffu. Mae'r penderfyniad yn cael ei adael i'r cynghorau. Mae hyn wedi arwain at amrywiaeth eang yn nifer a chylch gwaith y pwyllgorau craffu a'r math a maint y gefnogaeth sydd ar gael.

4.2 Mae lefel ac effeithiolrwydd cyfraniad aelodau Craffu yn cael dylanwad mawr ar effeithiolrwydd cyffredinol craffu, ac fe wneith hyn amrywio yn naturiol rhwng pwyllgorau a chynghorau. Er hyn, mae'r gefnogaeth y mae awdurdod yn ei roi i graffu yn bwysig iawn i gyflawni'r pedwar swyddogaeth graidd o graffu ac atebolrwydd:[1]

- her adeiladol 'cyfaill beirniadol'
- mwyhau llais a phryderon y cyhoedd
- cael eu harwain gan bobl annibynnol sy'n cymryd cyfrifoldeb dros eu swyddogaeth

---

[1] Canolfan ar gyfer Craffu Cyhoeddus www.cfps.org.uk

- hybu gwelliannau mewn gwasanaethau cyhoedddus. Gallwch ddarganfod mwy am y bedair egwyddor yma yn ein Canllaw Craffu Da.

4.3 Ar gyfer yr adroddiad yma, rwyf wedi adnabod cefnogaeth allweddol fel staff craffu; cyllideb dewisiol, a hyfforddi. Fe all staff craffu gyflawni amrywiaeth o swyddogaethau gwahanol yn cynnwys trefniadaeth a cefnogaeth gweinyddol, rhoi cyngor a gwybodaeth, a cyflawni gwaith ymchwil. Gall y swyddogion weithio yn gyfan gwbl neu'n y lle cyntaf ar gyfer craffu (swyddogion penodol) neu cael canran o'u gwaith yn ymwneud â craffu. Gall rhai cynghorau rhoi cyllideb ar gyfer craffu yn ogystal a costau staff (cyllideb dewisiol) i dalu am gostau sy'n codi o weithgareddau craffu.

4.4 Mae'r nifer o bwyllgorau craffu sefydlog a cyfarfodydd am fod yn ffactor yn gwerthuso faint o gefnogaeth sydd yn debygol o fod ar gael ar ôl y tasgau trefniadaeth sylfaenol a gweinyddol sydd yn galluogi pwyllgor i gyfarfod a threfnu cyfarfodydd yn y dyfodol. Mae'r atodiad yn rhoi trosolwg cryno o'r strwythur a'r cefnogaeth yn y 6 sir.

4.5 Mae gwybodaeth mwy manwl ar ffwythiannau craffu ar gael yn adroddiad blynyddol pob sir.

Adroddiad Blynyddol Ynys Môn:

http://www.anglesey.gov.uk/Journals/2012/05/11/Overview-Scrutiny--Annual-Report-2011-2012.pdf

Adroddiad Blynyddol Conwy:

http://modgoveng.conwy.gov.uk/ieListDocuments.aspx?CId=207&MId=3231&Ver=4

Adroddiad Blynyddol Dinbych:

https://moderngov.denbighshire.gov.uk/ieListDocuments.aspx?CId=134&MId=4477&Ver=4&LLL=0

Adroddiad Blynyddol Fflint:

http://www.flintshire.gov.uk/wps/portal/english/services?WCM_GLOBAL_CONTEXT=/web+content/flintshire/english/services/100004/200033/1031

Adroddiad Blynyddol Gwynedd:

http://www.gwynedd.gov.uk/gwy_doc.asp?cat=4255&doc=21639&Language=1&p=1&c=1

Adroddiad Blynyddol Wrecsam:

http://www.wrexham.gov.uk/MinutesData/Council/cl26092012a.htm

**5. Sut mae'r penderfyniadau yn cyfrannu ar Flaenoriaeth Gorfforaethol?**

Nid oes angen penderfyniad ar hyn o bryd.

**6. Faint fydd y gost a sut y bydd hyn yn effeithio'r gwasanaethau eraill?**

Bwriad yr adroddiad yma yw rhoi gwybodaeth ar gyfer trafodaeth. Nid oes unrhyw effaith uniongyrchol ar wasanaethau eraill.

**7. Beth yw prif gasgliad Asesiad Effaith Cydraddoldeb (AEC) i ymgymryd â'r penderfyniad? Dylai templed cyflawnedig yr AEC gael ei roi ynghlwm fel atodiad i'r adroddiad.**

Nid oes ei angen ar gyfer yr adroddiad hwn.

**8. Pa ymgyngoriadau sydd wedi digwydd gyda Craffu ac eraill?**

Mae unedau craffu mewn awdurdodau eraill yng ngogledd Cymru wedi cyfrannu gwybodaeth ar gyfer yr adroddiad.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Ariannu**

Ddim wedi ei gael ar gyfer yr adroddiad yma.

10. **Pa risgiau sydd ac oes rhywbeth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Dim ar gael.

**11. Pŵer i wneud penderfyniad**

Mae Mesur y Llywodraeth Lleol 2011 (Cymru) yn galluogi i'r Pwyllgor Gwasanaeth Democrataidd adolygu a gwneud argymhellion ar y lefel o adnoddau sydd ar gael ar gyfer y swyddogaeth o graffu.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

| Cyngor | Pwyllgorau Craffu | Staff Cynorthwyo Craffu | Nifer Cyfarfodydd | Cyllideb Ddewisol | Hyfforddiant Craffu |
|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | - Corfforaethol<br>- Datblygu Economaidd, Twristiaeth ac Eiddo<br>- Addysg a Hamdden<br>- Amgylchedd a Gwasanaeth Technegol<br>- Tai a Gwasanaeth Cymdeithasol | 3 staff cymorth penodol | 36 (Mai 2012 i Mai 2013) | Na | Mae'r uned graffu yn darparu hyfforddiant e.e. sut i greu adolygiad, beth yw ystyr comisiynu. |
| Conwy | - Cymunedau<br>- Cwsmeriaid<br>- Partneriaethau<br>- Egwyddor | 1 swyddog cymorth penodol<br>Peth cymorth gweinyddol ar gyfer craffu gan Swyddog Gwasanaethau Aelodau (Craffu)<br>Cefnogaeth gan gydlynwyr craffu[1] | 39 | Dim darpariaeth uniongyrchol ond gellir gwneud ceisiadau os bydd angen. | Darparu digwyddiadau Hyfforddi a Datblygu Aelodau:<br>1) Sigiliau Cadeirio<br>2) Sgiliau Cwestiynu<br>3) Cyllid Llywodraeth Leol<br>4) Safonau<br>5) Gwasanathau Addysg<br>6) Mentora Aelodau. |

[1] Er mwyn cynorthwyo gwaith Cadeiryddion a'r Is-gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu i ddatblygu Rhaglenni Gwaith blaengar ac amserol, fe wnaeth Cyngor Conwy gytuno (i ddefnyddio adnoddau presennol y staff), i enwebu Cydlynwyr Cyswllt Cefnogi Craffu, sef un Cydlynydd yr un ar gyfer y pedwar pwyllgor. Yn dilyn cyflwyno swyddog cymorth adliniol ychwanegol, mae hyn wedi galluogi'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu i ganolbwyntio ar flaenoriaethu'n well blaenoriaethau'r agenda.

| Cyngor | Pwyllgorau Craffu | Staff Cynorthwyo Craffu | Nifer Cyfarfodydd | Cyllideb Ddewisol | Hyfforddiant Craffu |
|---|---|---|---|---|---|
| Sir Ddinbych | - Cymunedau<br>- Partneriaethau<br>- Perfformiad<br><br>Hefyd Grŵp Cydygysylltu Craffu Cadeiryddion ac is-gadeiryddion. | 1 swyddog cymorth penodol<br>Hyd at 50% o amser y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd<br>10% o amser y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd | 24 o gyfarfodydd wedi'u trefnu yn ogystal â tua 5 cyfarfod arbennig. 7/8 cyfarfod craffu y Cadeiryddion a'r is-gadeiryddion .<br>Nifer o dasgau cefnogaeth a chyfarfodydd clo yn cael eu cynnal bob blwyddyn.<br>Cyfarfodydd briffio rheolaidd yn cael eu cynnal rhwng pwyllgor y cadeiryddion, yr is-gadeiryddion a'r swyddogion cymorth. | Na | Oes, hyfforddiant ar gyfer cadeirio craffu, sgiliau cwestiynu a golwg gyffredinol ar graffu yn cael ei gynnig.<br>Gellir trefnu cyrsiau eraill. |
| Sir y Fflint | - Tai<br>- Andoddau Corfforaethol<br>- Amgylchedd<br>- Addysg Dysgu Gydol Oes<br>- Proffil Cymunedol a Phartneriaethau<br>- Iechyd a Gofal Gymdeithasol | 2 swyddog cymorth penodol<br>1 swyddog gweinyddol penodol<br>80% o amser rhelowr adran | 66 cyfarfod yn ogystal â chyfarfodydd tasg a chyfarfodydd clo. | Na | Oes, sesiynau hyfforddi craffu ar gael. |
| Gwynedd | - Corfforaethol<br>- Cymunedau<br>- Gwasanaethau<br>Hefyd mae fforwm Cadeiryddion ac is- | 1 swyddog cymorth penodol<br>Hyd at 75% (1.5 FTE) o amser dau Swyddog Gwella Perfformiad ac | 21 cyfarfod wedi'u trefnu (7 cyfarfod i bob Pwyllgor y flwyddyn.<br>Gall nifer o gyfarfodydd i pob pwyllgor leihau i 5 | I'w gadarnhau. | Oes, hyfforddiant ar gadeirio sy'n ymwneud â chraffu, sgiliau cwestiynu yn ogystal â gorolwg o'r |

| Cyngor | Pwyllgorau Craffu | Staff Cynorthwyo Craffu | Nifer Cyfarfodydd | Cyllideb Ddewisol | Hyfforddiant Craffu |
| --- | --- | --- | --- | --- | --- |
| | gadeiryddion Craffu yn cyfarfod bob chwarter. Gall cyfarfodydd ychwanegol gael eu cynnal yn ôl yr angen. | Effietholrwydd (Craffu) gyda Grwpiau Craffu Tasg a Chlo.<br><br>Hyd at 50% o amser y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd<br><br>5% o amser Pennaeth Gwasanaethau. | cyfarfod y flwyddyn nesaf.<br>21 cyfarfod paratoadol.<br><br>21 o gyfarfodydd briffio yn cael eu cynnal rhwng cadeiryddion ac is-gadeiryddion a'r swyddog cymorth.<br><br>Nifer o gyfarfodydd tasg a chyfarfodydd clo yn cael eu cynnal bob blwyddyn. | | gwaith o graffu yn cael ei gynnig. Gall cyrsiau eraill gael eu trefnu. |
| Wrecsam | - Cyflogaeth, Busnes a Buddsoddiad<br>- Addysg, Diogelu a Lles<br>- Tai, Amgylchedd a Chymunedau<br>- Cwsmeriaid, Perfformiad ac Adnoddau<br>- Partneriaethau a Chydweithredu | 2 (cywerth amser llawn - o 3 swyddog) swyddog cymorth penodol.<br>20% o amser y rheolwr adran | 55 o gyfarfodydd wedi'u trefnu yn ogystal â chyfarfodydd ychwanegol neu wethdai os bydd angen. | Na | Oes, hyfforddiant ar gadeirio sy'n gysylltiedig â chraffu, sgiliau cwestiynu, a gorolwg gyffredinol ar waith craffu yn cael ei gynnig.<br>Gellir trefnu cyrsiau eraill. |

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

| | |
|---|---|
| **Adroddiad ar gyfer:** | **Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **Chwefror 15, 2013** |
| **Aelod Arweiniol / Swyddog:** | **Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd** |
| **Teitl:** | **Amserlen y Pwyllgor 2013 / 14** |

## 1. Beth mae'r adroddiad yn ymwneud ag o?

Mae'r adroddiad yn cynnwys amserlen ddrafft ar gyfer cyfarfodydd ym mlwyddyn y cyngor (Mai 2013 i Ebrill 2014 a dechrau'r flwyddyn ddilynol, Mai 2014). Mae Atodiad 1 yn cynnwys gwybodaeth amserlennu ar y pwyllgorau, atodiad 2 yn cyfeirio at ganlyniadau arolwg o gynghorwyr ac aelodau cyfetholedig ar amseriad a lleoliad cyfarfodydd, ac atodiad 3 ydi'r amserlen ddrafft.

## 2. Beth yw'r rheswm am wneud yr adroddiad yma?

Mae ar y Cyngor angen amserlen wedi'i chynllunio i gynnal y busnes a ymgymerir gan ei wahanol bwyllgorau yn ystod y flwyddyn. Mae'r drafft atodol ar gyfer ystyriaeth gan aelodau cyn cadarnhau'r drafft terfynol gan y Cyngor Sir ym mis Ebrill.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd yn ystyried y canlynol ac yn rhoi sylwadau:

(i) amserlen ddrafft o gyfarfodydd pwyllgor
(ii) amser priodol cyfarfodydd (yn seiliedig ar ymateb o'r arolwg aelodau ac aelodau cyfetholedig)

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1 Nid oes unrhyw gyfarfodydd wedi eu trefnu ar gyfer gwyliau'r haf yn Awst. Mae hyn yn rhoi cyfle i aelodau gymryd gwyliau ac mae'n osgoi presenoldeb gwael a chyfarfodydd heb gworwm yn ystod y cyfnod yma. Fe anogir swyddogion sy'n cynorthwyo'r pwyllgorau i gymryd gwyliau hefyd yn ystod y cyfnod yma fel bod y lefelau cymorth mwyaf ar gael pan fydd y pwyllgorau'n eistedd. Eleni, fe adroddodd rhai swyddogion ei bod yn anodd paratoi ar gyfer cyfarfodydd a gynhaliwyd yn agos at y Nadolig neu ar ddechrau'r flwyddyn newydd (cynhyrchu adroddiadau etc.) gan fod nifer fawr o bobl yn cymryd gwyliau yn y cyfnod gwyliau mwyaf poblogaidd yma.

4.2 Mae'r amserlen ddrafft (atodiad 3) yn cynnwys cyfarfodydd ym Mai 2014, sy'n ddechrau amserlen y flwyddyn ddilynol. Mae hyn yn caniatáu dangos Cyfarfod Blynyddol y Cyngor.

Amseru Cyfarfodydd

4.3 Cynhaliwyd arolwg yn ystod ail hanner 2012 ar farn cynghorwyr ac aelodau cyfetholedig ar ba bryd ac ym mhle'r hoffen nhw gynnal eu cyfarfodydd. Roedd yr arolwg yn ofyniad Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 ac mae'n orfodol ar y Cyngor i ystyried canlyniadau'r arolwg wrth gynllunio cyfarfodydd. Mae crynodeb o ganlyniadau'r arolwg yn atodol fel atodiad 2.

4.4 Yn seiliedig ar farn aelodau cynigir cadw'r gymysgedd bresennol o gyfarfodydd yn y bore gan fwyaf ond gyda rhai pwyllgorau neu banelau'n cyfarfod yn y prynhawn. Bydd y Cyngor yn trefnu nifer fechan o gyfarfodydd gyda'r nos (ar gyfer rhai Grwpiau Ardal Aelodau, er enghraifft). Byddai'r rhan fwyaf o gyfarfodydd yn cael eu cynnal yn Neuadd y Sir ond gellid trefnu rhai cyfarfodydd mewn lleoliadau eraill yn y sir.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu tuag at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae amserlen y pwyllgor yn caniatáu i'r prosesau democrataidd yn Sir Ddinbych gael eu trefnu a chyfrannu tuag at flaenoriaethau corfforaethol y Cyngor.

**6. Beth fydd hyn yn ei gostio a sut fydd o'n effeithio ar wasanaethau eraill?**

Mae costau cynnal system bwyllgor yn dod o fewn cyllidebau presennol. Gall gwasanaethau yn y Cyngor drwyddo draw gyfrannu tuag at y cyfarfodydd a gynhwysir yn yr amserlen, drwy gyfrannu gwybodaeth, adroddiadau ac amser swyddogion fel arfer.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb a gafwyd ar y penderfyniad? Dylid atodi'r AEC a gwblhawyd fel atodiad i'r adroddiad.**

Mae'r amserlen flynyddol o gyfarfodydd yn broses sefydledig ac mae'n cyfarfod ag amcanion y Ddeddf Gydraddoldeb. Y prif 'ddefnyddwyr gwasanaeth' ydi aelodau'r pwyllgorau a'r swyddogion cynorthwyol. Er bod y wasg a'r cyhoedd hefyd yn gallu mynychu'r rhan fwyaf o gyfarfodydd mae buddiant unigolion neu grwpiau'n debygol o ddibynnu ar y testun dan sylw.

Cynhaliwyd arolwg diweddar o gynghorwyr ar amseriad a lleoliad cyfarfodydd ac mae'r canlyniadau wedi eu hystyried. Bydd y Cyngor yn defnyddio'r ystafelloedd cyfarfod mwyaf addas ble bynnag y bydd hynny'n bosib (o ran mynediad, parcio, cyfleusterau toiled, cludiant cyhoeddus).

**8. Pa ymgynghoriadau a gafwyd gyda Chraffu ac eraill?**

Fe ymgynghorwyd ag ystod eang o swyddogion sy’n ymglymedig â darparu cymorth a chyngor i’r pwyllgorau a ddangosir yn atodiad 1 ac fe ymgynghorwyd ag aelodau ar eu hoffterau ar gyfer amseriad a lleoliad cyfarfodydd.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

I’w gwblhau cyn cyflwyno i’r Cyngor llawn.

**10. Pa risgiau sydd yna ac a oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i’w lleihau?**

Bydd trefniadau gweinyddol i gynnal yr amserlen yn dechrau ar unwaith i osgoi’r risg y gallai oedi ei achosi gyda bwcio lleoliadau cyfarfod addas ac i roi’r amserlen ar gael i aelodau a swyddogion i ddibenion dyddiadur.

**11. Grym i wneud y Penderfyniad**

Adran 12 Deddf Llywodraeth Leol, 1972

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**APPENDIX 1**
Timetabling Information

Council

Monthly meetings have been scheduled to follow the Annual Meeting on the 7 May 2013. No meeting has been scheduled for January on the basis that (a) preparations for meetings in early January are affected by the Christmas and new year holidays, and (b) Cabinet in January needs to meet to make recommendations to Council on the following year's budget,

There are 2 Council meetings scheduled for February, particularly to agree the Council's budget and then to set the level of council tax.

Two dates in June and October have been reserved for Council to meet if there is sufficient business to transact.

Cabinet

Dates for Cabinet meetings have been moved towards the end of a month where possible. The reason for this is that Cabinet considers an important budget monitoring report at each meeting, which covers the previous month. Collection of the budget information, report preparation, and publication can result in these reports being 'late'. Holding the Cabinet meetings at the end of a month will allow these reports to be circulated on time. As a consequence, some Cabinet meetings do fall during school holidays.

There will be two meetings in September as a result of the August recess.

Mid-month meetings will be held in:

- December - a meeting the following week would fall on Christmas Eve;
- January -Cabinet needs to meet early enough to make recommendations on the budget to Council at the beginning of February, with Council's agenda being published at the beginning of the last week in January
- February – Affected by the position of Council meetings at the beginning of the month (to agree the budget) and at the end of the month (to set Council Tax levels).

Scrutiny Committees

The 3 scrutiny committees have 5 co-opted voting members whenever they discuss education matters. For this reason none of their meetings have been scheduled during school holidays.

The previous timetable included a meeting for the Performance Scrutiny Committee on the 23 May 2013. It is proposed to move that meeting to the 16 May and hold a Communities Scrutiny meeting on the 23 May instead. The reason for this change is to allow each of the scrutiny committees to meet twice before the recess and for the Partnerships Scrutiny Committee to meet in July to avoid having to call a special meeting to deal with known business on its forward work programme.

A June meeting of the Partnerships Scrutiny Committee is scheduled for 2 p.m. on Monday 10 June to meet with the Betsi Cadwaladr University Health Board.

Part of the Performance Scrutiny Committee's role is to scrutinise the Council's performance using the information gathered through the quarterly performance reports. Some of the committee's meetings are based on when those quarterly reports will be available to ensure the committee has access to the latest performance information.

Planning Committee

Planning officers have identified the proposed schedule for Planning Committee meetings which is thought to ensure that the committee meetings and associated post-committee work (issuing decision certificated, etc.) are complementary.

Corporate Governance Committee

The Corporate Governance Committee is also the Council's Audit Committee and the proposed scheduled takes into account when the committee will be required to consider treasury management performance and the statement of accounts.

Standards Committee

The number of scheduled meetings has been reduced from 8 to 5 (May 2013 – April 2014) to reflect the workload experienced over recent years. However, if the workload indicates that other meetings are required, these will be arranged accordingly.

Corporate Health, Safety and Welfare Committee

Meetings of the CHSW Committee have been scheduled for approximately 1 month after the end of the previous quarter to allow the committee to review quarterly health and safety reports.

Local Joint Consultative Committee (LJCC)

4 quarterly meetings have been scheduled on Wednesday afternoons.

Standing Advisory Council for Religious Education (SACRE)

The membership of this statutory committee includes representatives from Denbighshire County Council, religious denominations and teacher associations. This year, the draft schedule proposes to hold their 3 termly meetings on different days of the week (a Monday, Wednesday and Friday) to lessen the impact on teacher representatives caused by taking time out of school on the same week-day for each meeting.

Democratic Services Committee

This committee must meet at least once every calendar year and is able to review the level of support for democratic services, committees, etc. Two Friday meetings have been scheduled at the beginning of the municipal year (24 May) and on the 7 February. Extra meetings can be added if necessary.

Council Briefing

Afternoon sessions of this informal gathering of Council have been proposed for June, January and April.

Three budget workshops have also been included in the Council Briefing schedule to support members' involvement in developing the draft budget for the following year.

Cabinet Briefing

This is an informal but important meeting for Cabinet members and meetings are proposed for the first Monday of a month. This is expected to complement the cycle of Cabinet meetings which will usually be at the end of the month. Please note that meetings have not been scheduled for May (the first available Monday would be mid-month, and 1 day before Cabinet) and September (there are Cabinet meetings at the beginning and the end of the month).

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**APPENDIX 2**

<u>Results of a Survey on the Timing and Location of Meetings</u>

**Question 1 – Would you prefer morning, afternoon or evening meetings?**

Responses:

Morning = 26 Afternoon = 7 Evening = 6

**Question 2 – Would you apply your preferences to all committees, only committees you are a member of, or only certain committees?**

Responses:

All committees = 13
Only committees (the respondent) is a member of = 13
Only certain committees = 5

*(The comments received were: satisfied with current arrangements = 2; should be flexible on timings = 2; too many meetings are held in Ruthin = 1; some evening meetings should be held = 1; committees which the public regularly attend e.g. Planning should be in the evening = 1; like to see a balanced mix of morning, afternoon and evening meetings for Planning, Licensing and some scrutiny meetings = 1; would not like to dictate to members of other committees on their timings = 1)*

**Question 3 – Would you prefer to see the timing of meetings rotate?**

Responses:

Yes, for all committees = 7
Yes, for some committees = 4
No = 19

*(Comments: satisfied with the current arrangements = 2; Meetings should rotate (except for Council & Planning which should be in Ruthin at 10 a.m.) = 1; Hold meetings at various times according to the wishes of members = 1; Full Council & Planning should remain the same but others could rotate = 1; Afternoon meetings could be easier to support / attend = 1; One committee could meet in the evening to allow members who prefer evening meetings to attend = 1; Rotating times (of specific) committees could cause difficulties for working members because of the irregular pattern when booking time off to attend = 1)*

**Question 4 – Are there particular times that would cause you difficulties?**

Responses:

Yes = 20 No = 9

*(Comments: the responses to this question clearly require clarification. Evening meetings were the most commonly cited difficulty mentioned by 15 respondents. Having too many meetings in a week was cited by 4 respondents as being a problem).*

**Question 5 – Do you have a preferred location(s) for meeting venues?**

Responses:

Yes = 21 No = 9

*(Comments: Ruthin = 11; Ruthin or Denbigh = 4; Rhyl = 2; Depends on locations of officers or committee members = 2; Rhyl or Prestatyn = 1; Rhyl, Prestatyn or Denbigh = 1; Rhyl, Prestatyn or Ruthin = 1; Rotate throughout the county = 1)*

**COMMITTEE TIMETABLE 2013 / 2014** **APPENDIX 3**

| Committee | May | June | July | August | Sept | Oct | Nov | Dec | Jan | Feb | March | April | May |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **COUNTY COUNCIL**<br>**10 a.m.** | 7<br>Annual Meeting | *4** | 9 | SUMMER RECESS | 10 | *8** | 5 | 3 | | 4<br>25 | | 8 | 13<br>Annual Meeting |
| **COUNCIL BRIEFING**<br>**2 p.m.** | | 24 | 15<br>(budget) | | | 21<br>(budget) | | 9<br>(budget) | 27 | | | 28 | |
| **CABINET**<br>**10 a.m.** | 14 | 25 | 30 | | 3<br>24 | 29 | 26 | 17 | 14 | 18 | 25 | 29 | 27 |
| **CABINET BRIEFING**<br>**2p.m.** | | 3 | 1 | | | 7 | 4 | 2 | 6 | 3 | 3 | 7 | |
| **PLANNING**<br>**9.30 a.m.** | 15 | 19 | 24 | | 11 | 16 | 13 | 11 | 22 | 19 | 19 | 16 | 14 |
| **PERFORMANCE SCRUTINY**<br>**9.30 a.m.** | 16 | 20 | | | 19 | 24 | | 12 | 16 | 20 | 20 | | 1 |
| **COMMUNITIES SCRUTINY**<br>**9.30 a.m.** | 23 | | 4 | | 12 | 17 | 28 | | 23 | | 6 | 3 | 15 |
| **PARTNERSHIPS SCRUTINY**<br>**9.30 a.m.** | | 10<br>(2 p.m.) | 18 | | 26 | | 7 | 19 | | 6 | 13 | 10 | |
| **CORPORATE GOVERNANCE**<br>**9.30 a.m.** | 22 | | 3 | | 4<br>25 | | 6 | 18 | 29 | | 26 | | 21 |
| **LICENSING**<br>**9.30 a.m.** | | 12 | | | 18 | | | 4 | | | 5 | | |
| **LJCC**<br>**2.p.m.** | | | 10 | | | 9 | | | | 12 | | 2 | |

| Committee | May | June | July | August | Sept | Oct | Nov | Dec | Jan | Feb | March | April | May |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **SACRE**<br>**10 a.m.** | | 10 | | | | 2 | | | | 14 | | | |
| **STANDARDS**<br>**10 a.m.** | | 7 | | | 6 | | 22 | | 31 | | 14 | | 9 |
| **DEMOCRATIC SERVICES COMMITTEE**<br>**10 a.m.** | 24 | | | | | | | | | 7 | | | |
| **CORPORATE HEALTH, S & W**<br>**10 a.m.** | | | 26 | | | 25 | | | 24 | | | | 2 |

*The 4 June and 8 October are additional dates reserved for full Council but will only be used if there is sufficient business to consider.